Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun, 9 Mawrth 2015 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

**2. Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

**3. Materion Brys**

Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

**4. Cofnodion** (Tudalennau 3 - 13)

Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

**5. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:**

**a)** Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 14 - 24)

**b)** Diweddariad ar Gyllideb 2014/15 (ar 31 Rhagfyr 2014) (Tudalennau 25 - 28)

**c)** Diweddariad gan Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ar ddarpariaeth teledu cylch cyfyng yng Ngogledd Cymru *(llafar)*

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

6. **Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** (Tudalennau 29 - 31)

7. **Rhaglen Cyfarfodydd Bwriedig 2015/16**

Dydd Llun, 15 Mehefin 2015 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 21 Medi 2015 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 9 Tachwedd 2015 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2015 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 25 Ionawr 2016 @ 2.00 pm
Dydd Llun, 14 Mawrth 2016 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Amanda Bragg | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Bob Dutton OBE | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Bill Tasker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Gethin Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Patricia Astbury | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 19 Ionawr 2015, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| Yn Bresennol: | Y Cynghorydd Gethin Williams (Is-Gadeirydd yn Cadeirio)<br><br>Y Cynghorwyr: Amanda Bragg, Bob Dutton, Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, Dilwyn Morgan, a Colin Powell |
| Swyddogion: | Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd), Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Yn bresennol: | Stephen Hughes (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd). |
| Hefyd yn bresennol: | Guto Edwards (Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Heddlu Gogledd Cymru)) a Simon Shaw (Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu Gogledd Cymru) |
| Yn absennol: | Y Cynghorydd Bill Tasker |

146. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Pat Astbury (Aelod Annibynnol), y Cynghorydd Glenys Diskin, y Cynghorydd Wil Hughes, a Tim Rhodes (Aelod Annibynnol).

147. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorodd Philip C. Evans Y.H. gysylltiad personol, nad yw'n rhagfarnu yn Eitem Rhif 5a ar y Rhaglen – Cadarnhau Gwrandawiad ar gyfer Prif Weithredwr a Swyddog Monitro Dros Dro gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd arfaethedig yn ei rôl gyfredol ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Er budd tryloywder, datganodd Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth a'r Amgylchedd) gysylltiad personol yn Eitem 5a ar y Rhaglen – Cadarnhau gwrandawiad ar gyfer Prif Weithredwr a Swyddog Monitro Dros Dro, gan ei fod wedi gweithio gyda'r ymgeisydd arfaethedig yn ei rôl bresennol ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

148. **MATERION BRYS**

Dim

149. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2014 i'w cymeradwyo.

Cofnod 138 – Cadarnhaodd y Cynghorydd Bob Dutton (Wrecsam) ei fod wedi derbyn ymateb i'r pryderon a godwyd ganddo yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn ag anawsterau cysylltu â Swyddogion yr Heddlu lleol (yn enwedig yn y Waun): fodd bynnag codwyd rhagor o bryderon ynglŷn â'r wefan ers hynny, a chytunodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y byddai'n archwilio hyn.

Cofnod 138 – darparodd y Dirprwy Brif Weithredwr gopi o gymorth cof a roddwyd i staff gweithredol mewn perthynas â Chod Ymddygiad Dioddefwyr.

Cofnod 138 – Diffiniad o'r categori 'Terfyn Amser wedi dod i Ben: *Nododd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod y categori yn cyfeirio at faterion diannod, ac mai troseddau diannod yw'r rhai lleiaf difrifol a gellir cyflwyno'r achos mewn Llys yr Ynadon yn unig. Roedd hyn yn wahanol i'r ddau gategori o droseddau 'ditiadwy yn unig' a throseddau sy'n 'brofadwy'r naill ffordd'. Gellir clywed achos trosedd ddiannod yn absenoldeb y diffynnydd. Mae troseddau diannod yn cynnwys troseddau traffig ffyrdd, ymosodiadau mân, difrod i eiddo ac ymddygiad ymosodol. O ran y terfyn amser, mae Adran 127 o Ddeddf Llysoedd yr Ynadon 1980 yn nodi na fydd llys yr ynadon yn profi gwybodaeth neu'n gwrando ar gŵyn oni bai y cyflwynir yr wybodaeth neu'r gŵyn, o fewn 6 mis o'r adeg pan gyflawnwyd y drosedd neu achos y cwyn. Mae Adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn cyfeirio at ymosodiad cyffredin a churfa fel trosedd ddiannod.* Adroddodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod y materion yn y categori hwn, a adolygwyd yn y cyfarfod diwethaf, i gyd yn ymosodiadau.

Cofnod 138: Penderfyniadau dad-droseddu: Hysbysodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd y Panel nad oedd y ffaith fod mater wedi'i ddad-droseddu yn ofynnol ar hyn o bryd, fodd bynnag byddai'n ofynnol o fis Ebrill 2015, gan y byddai'n cael ei gynnwys yn Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref, fyddai'n cael eu cyflwyno ym mis Ebrill eleni.

Fodd bynnag, yn ymarferol, mewn nifer o achosion, byddai'n rhaid i'r dioddefwr fod yn rhan o'r digwyddiadau sy'n arwain at y penderfyniad.

Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys lle y cafwyd tystiolaeth wiriadwy ychwanegol gan y dioddefwr a gyda'u llofnod arno; lle'r oedd y drosedd yn elfen wedi'i mewnosod yn rhan o drosedd arall (er enghraifft, lle y canfyddir fod lladrad mewn annedd wedi'i gofnodi yn ddilynol i'r fyrgleriaeth y mae'n rhan ohoni, felly mae dioddefwr i'r fyrgleriaeth yn yr achos hwn); lle'r oedd troseddolrwydd yn berthnasol (er enghraifft, lle adroddir byrgleriaeth a'i gofnodi, ond bod yr archwiliad dilynol yn canfod fod yr adroddiad yn ffug ac y gwnaed cais twyllodrus i gael yswiriant, gan olygu nad oedd trosedd ar gyfer y lladrad ac un trosedd o dwyll wedi'i gofnodi gan 'Action Fraud').

Adroddodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei fod wedi cadarnhau gyda'r Heddlu bod cyswllt gyda'r dioddefwr o ran pob achos o drais rhywiol, oedd yn cael eu dad-droseddu.

Cofnod 138- Ystadegau Twyll: Datganodd y Dirprwy Brif Weithredwr, nad oedd heddluoedd Cymru a Lloegr bellach yn cofnodi troseddau twyll, gan y gwneir hyn gan Action Fraud yn awr; dechreuodd y broses yng Ngogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2012.

Hysbyswyd Banel yr Heddlu a Throsedd fod data Action Fraud ar gael ar lefel sirol ar eu gwefan (http://www.actionfraud.police.uk/fraud-statistics). Adroddwyd hefyd fod y ffigyrau trosedd cenedlaethol a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys ystadegau twyll cyfanredol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2014 fel cofnod cywir.**

**(b) Bod Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn archwilio'r pryderon ynglŷn â'r wefan.**

150. **GWRANDAWIAD CADARNHAU AR GYFER PRIF WEITHREDWR DROS DRO A SWYDDOG MONITRO**

Gofynnwyd i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i ystyried enwebiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer swydd statudol y Prif Weithredwr ar gyfer cyfnod mamolaeth dros dro.

Roedd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn cynnal gwrandawiad cyhoeddus ar gyfer yr uwch benodiad hwn, lle gofynnwyd i'r ymgeisydd ymddangos at ddiben ateb cwestiynau sy'n ymwneud â'r penodiad.

Ystyriodd Panel yr Heddlu a Throsedd lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn enwebu Mr Stephen Hughes i swydd statudol Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, am gyfnod dros dro ac i ffurfio argymhelliad i'r Comisiynydd ynglŷn â hyn.

Yn unol â Pharagraff 11(2) yr Atodlen, o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol, roedd Mr Hughes yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Adolygodd y Panel y penodiad arfaethedig a’r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd i bennu ei enwebiad ar gyfer y swydd statudol hon.

Cydnabu’r Aelodau fod gan Mr Hughes brofiad o weithio i Heddlu Gogledd Cymru am 11 mlynedd a bod ganddo gyfrifoldeb o reoli cyllideb fawr ac wedi cefnogi’r Heddlu i ddarparu eu hamcanion strategol.

Yn ogystal â hyn, roedd Mr Hughes wedi gweithio gyda’r awdurdodau lleol a phartneriaid statudol eraill o fewn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol am 6 mlynedd, ac wedi derbyn cymeradwyaeth gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych.

Roedd y Panel yn fodlon fod Mr Hughes wedi diwallu'r meini prawf canlynol:

- Tystiolaeth o allu i gynorthwyo’r Comisiynydd i ddarparu ei ddyletswyddau statudol.
- Tystiolaeth o allu i ddarparu cyngor proffesiynol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd i alluogi’r Comisiynydd i gyflawni ei rôl.
- Unigolyn sy’n gallu arwain Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Unigolyn sy’n parchu ac yn deall safbwyntiau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fel Comisiynydd.

Mewn perthynas â’r broses gyfweld ar gyfer penodiadau o’r fath, cadarnhaodd y Comisiynydd na fyddai’n briodol pe bai aelodau’r Panel yn rhan o’r broses gyfweld, gan gofio dyletswydd statudol y Panel mewn perthynas â chynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer uwch benodiadau, fel y nodir yn Neddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mynegodd y Panel eu dymuniadau gorau i Ms Anna Humphreys, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) oedd ar ei chyfnod mamolaeth ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD-**

**Argymell i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y dylai Mr Stephen Hughes gael ei benodi fel Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am gyfnod dros dro yn ystod cyfnod mamolaeth.**

151. **CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU – AIL DDIWYGIAD, MAWRTH 2015**

Cyflwynodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd amrywiadau Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cafodd Cynllun Heddlu a Throsedd gwreiddiol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2013 ac roedd yn cael ei ddiwygio'n rheolaidd.

Fel rhan o'r ail amrywiad hwn, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, y cyhoedd, awdurdodau statudol, y gymuned fusnes, sefydliadau'r trydydd sector a'r Bwrdd Cymunedau Diogelach lleol.

Roedd sylwadau ac adborth o'r broses ymgynghori yn cadarnhau bod pedwar amcan yr heddlu a throsedd a gynhwysir yn y Cynllun yn parhau i adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru.

Amlygwyd amrywiadau Cynllun yr Heddlu a Throsedd fel a ganlyn:

- Darparu ar gyfer Gogledd Cymru:

- Roedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi cydnabod bod rhai mathau o droseddau, megis cam-fanteisio ar blant a cham-drin domestig heb eu hadrodd bob tro gan droseddwyr a'r cyhoedd.
- Byddai Heddlu Gogledd Cymru yn buddsoddi adnoddau ychwanegol i ymdrin â cham-fanteisio ar blant a throseddau eraill nad ydynt yn cael eu hadrodd dros y 12 mis nesaf.
- Cyfeiriwyd at arolwg Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi i safonau ac arferion cofnodi troseddau pob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflawni cyfradd cydymffurfio o 94% ac yn y pum heddlu uchaf, oedd yn cadarnhau fod y Cynllun yn seiliedig ar ddata cywir.
- Cyfeiriwyd at gyflwyno Cod Moeseg ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu, oedd yn gosod y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Swyddogion a'r staff sy'n gweithio i Wasanaeth yr Heddlu.

- Atal trosedd – dau fesur ychwanegol.

    - Lefel lladrad domestig.
    - Cynyddu nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid.

- Darparu ymateb effeithiol - un mesur ychwanegol.

    - Roedd y targedau arbed ar gyfer 2015/16 wedi'u cyflawni.

- Lleihau niwed a pherygl niwed – er mwyn darparu'r nod hwn roedd y Comisiynydd wedi cynnwys y datganiadau canlynol:

    - Y Prif Gwnstabl i sicrhau fod gan yr Heddlu fynediad i'r gallu a'r gallu i ymateb i fygythiad cynyddol terfysgaeth.
    - Gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd i ddatblygu'r ymateb i bobl â phroblemau iechyd meddwl, yn enwedig y gallu i leihau gwendidau a datblygu gwell arferion gyda phartneriaid.
    - Cynnal atebolrwydd yr Heddlu, roedd y Comisiynydd wedi ychwanegu dau fesur ychwanegol:

Nifer y sawl sy'n cyflawni trosedd cam-fanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cael eu harestio a'u herlyn; a nifer yr achosion o ddelweddau anweddus o blant sy'n cael eu herlyn.

- Ffurfio partneriaethau effeithiol

  - Rhoddwyd mwy o bwyslais ar yr angen i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill, gan fod materion sy'n codi o achosion sy'n ymwneud â thrais domestig, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a throseddau difrifol eraill yn aml yn fwy na dim ond plismona.

Wrth adolygu amrywiadau'r Cynllun, holodd y Panel ynglŷn â rôl y gwirfoddolwyr (mesur ychwanegol dan yr amcan Atal Trosedd).

Eglurodd y Comisiynydd mai'r bwriad oedd recriwtio 100 o wirfoddolwyr erbyn diwedd 2015, gyda rhwng 6/10 o wirfoddolwyr ym mhob ardal plismona leol. Roedd rolau a swydd-ddisgrifiadau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer gwirfoddolwyr mewn meysydd megis Gwiriadau Cyflymder; Gwasanaethau Cludiant; Amnest Arfau; chwilio am unigolion sydd ar goll; a TCC.

Roedd y Comisiynydd yn gweithio gyda'r Undebau Llafur ar hyn o bryd a nododd mai rôl y gwirfoddolwr oedd gwella plismona'r rheng flaen ac ychwanegu gwerth i dasgau craidd; ni fyddai'n gwirfoddolwyr yn cymryd lle Swyddogion yr Heddlu neu staff yr heddlu.

Cyfeiriwyd hefyd at uned Cam-fanteisio ar Blant a Diogelwch ar-lein (CEOPS) a rhannu adnoddau/ cydweithio gyda Heddluoedd ac asiantaethau eraill.

Cadarnhaodd y Comisiynydd fod Uned Troseddau Seiber Cenedlaethol, a oedd yn awr yn ymgorffori CEOPS yn gweithio gyda phartneriaid i nodi a phenderfynu ar y dulliau gorau o drechu troseddau seiber; roedd gwaith trawsffiniol yn hanfodol ac yn allweddol wrth ymdrin â'r math yma o drosedd.

Holodd y Panel sut y byddai gostwng y lefelau staffio, fel yr amlygwyd yn adroddiad y Comisiynydd ynglŷn â'r Praesept a Threth y Cyngor 2015/16 yn effeithio ar y gallu i gyflawni'r cynllun.

Mewn ymateb, adroddodd y Comisiynydd, ar adegau o galedi roedd system o flaenoriaeth yn seiliedig ar fygythiad, perygl a niwed yn hanfodol; byddai ffigyrau troseddau'r dyfodol yn nodi os oedd y system o flaenoriaeth yn gweithio.

Cyfeiriwyd at yr effaith y gallai'r system flaenoriaeth ei gael ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er nad yw'n un o'r troseddau mwyaf difrifol, roedd yn cael effaith sylweddol ar unigolion a chymunedau; ac roedd y cyhoedd yn dymuno presenoldeb lefel uchel gan yr heddlu.

Cyfeiriodd y Comisiynydd ar y dull dim goddefgarwch sy'n cael ei ddefnyddio ym Mharc Caia, Wrecsam ar hyn o bryd, oedd yn cynnwys cynyddu nifer y Swyddogion yn y gymuned a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Colin Powell (Wrecsam) fod y fenter yn llwyddiannus, fodd bynnag roedd angen strategaeth hirdymor. Mewn ymateb, nododd y Comisiynydd y byddai Grŵp Strategaeth Cymunedol yn cael ei sefydlu i ymgysylltu â'r holl bartneriaid i benderfynu ar strategaeth o'r fath.

Croesawodd Panel yr Heddlu a Throsedd yr amrywiadau i'r cynllun, yn enwedig o ran y canlynol:

- Atodiad B - cyfeiriwyd at weithgareddau plismona yng Ngogledd Cymru, oedd yn gadarn yn y deg ardal plismona leol yn seiliedig yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Cyfeiriad at y troseddau na chânt eu hadrodd yn aml, megis cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth a cham-drin domestig.
- Cyfeiriad at faterion iechyd meddwl – byddai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ceisio darparu ystadegau mewn perthynas ag achosion o hunanladdiad a throseddau sy'n ymwneud ag unigolion diamddiffyn.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod yr amrywiadau i Gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael eu cefnogi er mwyn eu mabwysiadu.**

152. **PRAESEPT A THRETH Y CYNGOR 2015/16**

Cyflwynodd Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Praesept Plismona arfaethedig ar gyfer 2015/16 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Un o brif gyfrifoldebau'r Comisiynydd oedd gosod y Praesept blynyddol, fyddai'n penderfynu ar gyfanswm y gyllideb sydd ar gael i Heddlu Gogledd Cymru i blismona yng Ngogledd Cymru.

Er mwyn galluogi'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithlon, roedd y Comisiynydd yn cynnig fod Praesept 2015/16 yn cynyddu i £66,673,611, fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 3.44% (cynnydd o £7.83 y flwyddyn ar gyfer eiddo Band D).

Roedd y Comisiynydd wedi ystyried a oedd hyn yn swm rhesymol o dreth i'w gynnig yn dilyn cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth (megis cynnydd ym mygythiad terfysgaeth, troseddau seiber a cham-fanteisio ar blant), gostyngiad i'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth a bod angen gosod cyllideb gynaliadwy a sefydlog ar gyfer 2015/16 a'r blynyddoedd sydd i ddod.

Er bod y Praesept arfaethedig yn darparu her anodd o ran effeithlonrwydd i'r Prif Gwnstabl, creda'r Comisiynydd y byddai'n darparu digon o adnoddau i ddarparu gwasanaeth plismona hyfyw ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd i ddod.

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid gyflwyniad i Banel yr Heddlu a Throsedd, oedd yn darparu manylion pellach ynglŷn â'r Gyllideb a’r Praesept ar gyfer 2015/16 i 2018/19, oedd yn cynnwys derbyniadau treth cyfredol, cyfanswm y gwariant a reolir yn erbyn canran y Cynnyrch Domestig Gros; newidiadau yn y tybiaethau ers y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwethaf; a’r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16. Roedd y cyflwyniad hefyd yn amlygu rhai risgiau, oedd yn cynnwys cyhoeddiad hwyr setliad 2015/16, dim cyhoeddiad o setliad 2016/17, fformiwla newydd o 2016/17 a darparu arbedion ym mlynyddoedd y dyfodol.

Adolygodd aelodau Panel yr Heddlu a Throsedd y cynigion ac yn y trafodaethau, ystyriodd y Panel y canlynol:

- Effaith chwyddiant, oedd wedi gostwng o 0.5% yn ddiweddar, ar lefel y Praesept arfaethedig. Hysbyswyd y Panel fod eitemau penodol, megis cyflog y sector cyhoeddus a systemau TG, oedd yn uwch na’r chwyddiant cyffredinol yn effeithio ar y gyllideb.
- Sut yr oedd gostyngiad ym mhrisiau tanwydd ac ynni yn effeithio ar y gyllideb a’r Praesept arfaethedig. Roedd cyllidebau plismona wedi ystyried y gostyngiadau ar gyfer 2015/16; fodd bynnag disgwylir y byddai costau o'r fath yn cynyddu yn y dyfodol ac roedd y gyllideb wedi’i dyrannu fel y bo’n briodol.
- Strategaeth ar gyfer benthyca, oherwydd y cyfraddau benthyca isel ar hyn o bryd.
- Effaith gostyngiad grant o £3.940m ar gyllidebau staffio, ac yn benodol, gwasanaethau'r rheng flaen.

Cydnabu’r Panel y byddai’n rhaid i’r Heddlu arbed £15.5m pellach yn y pedair blynedd nesaf, a byddai’n rhaid i £4.448m ohono ddod o gyllideb 2015/16. Diogelwyd gwasanaethau’r rheng flaen cymaint â phosibl, fodd bynnag po fwyaf y toriadau a wnaed, y mwyaf tebygol y byddai’n effeithio arnynt. Gofynnodd y Panel pe baent yn canfod arbedion ychwanegol y dylid eu buddsoddi yng ngwasanaethau’r rheng flaen fel y cam cyntaf.

Cytunodd y Panel i gefnogi'r Comisiynydd a'i gynigion mewn perthynas â'r praesept plismona, a fyddai'n galluogi'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth plismona hyfyw ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Bod y Praesept ar gyfer 2015/16 o £66,673,611 yn cael ei gymeradwyo.**

- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 3.44% - yn gyfartal â £253.44 y flwyddyn, cynnydd o £7.83 y flwyddyn neu 15c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.**
- **Mae hyn yn gynnydd o 4.01% o 2014/15.**

**(b) Bod y Panel yn nodi fod y toriadau o £4.448m sy’n ofynnol ar gyfer 2015/16 wedi’u nodi.**

**(c) Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol yn cael ei nodi:**

- **Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu o 3.5% yn 2016/17 a 2.5% yn 2017/18 a 2018/19.**
- **Y bydd grantiau plismona'n gostwng o 4% ym mhob blwyddyn.**
- **Bod newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr, fydd yn weithredol yn 2016/17 yn cael effaith sy'n gyfartal â 3.7% o ostyngiad grant pellach.**

153. **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD A PHRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU - CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2015-16 I 2018-19**

Ystyriwyd yr eitem hon fel rhan o gofnod 151.

154. **CRYNODEB O'R CWYNION SYDD WEDI DOD I LAW**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol (Democratiaeth a'r Amgylchedd) grynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd hyd yn hyn i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Roedd Panel yr Heddlu a Throsedd wedi derbyn 5 cwyn hyd yma, pob un wedi eu hadrodd i'r panel a bellach wedi eu datrys. Nid oedd y panel wedi derbyn unrhyw gŵyn pellach ynghylch Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ers yr adroddiad diwethaf, a gyflwynwyd i'r panel ar 2 Mehefin 2014.

Er mai dim ond cwynion yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd oedd yn rhan o gylch gwaith y Panel, roedd y Panel wedi derbyn 6 cwyn ynglŷn â Heddlu Gogledd Cymru; roedd y cwynion hyn wedi'u hanfon ymlaen at Adran Safonau Proffesiynol ac anfonwyd copïau ohonynt at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod y panel yn nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd mewn perthynas â'r cwynion ynghylch Heddlu Gogledd Cymru.**

155. **SUT MAE COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD YN CRAFFU AR BERFFORMIAD YR HEDDLU YN ERBYN AMCANION CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD**

Darparwyd gwybodaeth i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Panel) ynglŷn â sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) yn craffu ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn yr Amcanion Heddlu a Throsedd sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Cytunodd y Panel i ddatblygu Rhaglen Gwaith Craffu i'r Dyfodol (RhGD), a fyddai'n cynnwys testunau craffu a fyddai'n cysylltu â gweithgareddau'r Comisiynydd.

Roedd manylion sut yr oedd y Comisiynydd yn craffu perfformiad yr Heddlu yn yr adroddiad pwyllgor a'r atodiadau perthnasol, ac yn cynnwys y canlynol:

- Bwrdd Gweithredol Strategol - mae'r Comisiynydd yn craffu ar berfformiad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd, yn monitro perfformiad plismona a'r gyllideb blismona.
- Adroddiadau Chwarterol - Mae'r Comisiynydd hefyd yn cyhoeddi adroddiad chwarterol ar y ffrydiau gwaith i gefnogi'r Cynllun Heddlu a Throsedd, sydd wedi cael ei baratoi gan y Prif Gwnstabl.
- Adroddiadau Blynyddol - Mae'r Panel yn derbyn copi o adroddiad blynyddol y Comisiynydd yn flynyddol, sy'n rhoi gwybodaeth yn ymwneud â pherfformiad a chynnydd tuag at gyflawni'r amcanion heddlu a throsedd.
- Diweddariadau cyfnodol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mhob cyfarfod y Panel.
- Ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu gyda nifer o fudd-ddeiliaid amrywiol i dderbyn gwell dealltwriaeth o anghenion plismona.

Cyfeiriwyd at y materion canlynol a amlygwyd yn yr Adroddiad Chwarterol (a oedd yn atodiad i'r adroddiad):

- Bod presenoldeb annisgwyl yr heddlu mewn ardal yn debygol o leihau'r ymdeimlad o ddiogelwch yn hytrach na chynyddu'r ymdeimlad o ddiogelwch.
- Y cyflwyniad ynglŷn â'r 'Ymateb i Themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau' a'r mater yn ymwneud â chefnogaeth i gyn-swyddogion, gan fod nifer o gyn swyddogion gwasanaeth yng Ngogledd Cymru, a allai achosi pwysau mawr ar y bwrdd iechyd.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn nodi'r dulliau y mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn eu defnyddio i graffu perfformiad yr Heddlu yn erbyn amcanion yr Heddlu a Throsedd.**

156. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i'r dyfodol Panel yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2014/15 a 2015/16.

Mewn perthynas â'r adroddiad ynglŷn â Gwaith Partneriaeth ym mis Mehefin 2015, gofynnwyd fod manylion cyllid, yn enwedig o ran Cymorth i Ddioddefwyr yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Mewn ymateb, nododd Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru y gwnaed llawer o waith mewn perthynas â hyn ac y byddai Swyddog Comisiynu o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 2 Mehefin 2015, i ddarparu manylion ynglŷn â threfniadau comisiynu newydd.

Byddai Panel yr Heddlu a Throsedd yn ystyried gwahodd cynrychiolwyr o grwpiau megis, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Bwrdd Cymunedau Diogelach, Cymorth i Ddioddefwyr, a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i gyfarfodydd y dyfodol i ddarparu cyflwyniadau ar eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i wahodd y Prif Gwnstabl i gyfarfod yn y dyfodol, bodd bynnag byddai'n rhaid i'r Panel ddiffinio beth yr oedd ei angen a ni ddylid trafod materion gweithredol.

Gofynnwyd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddarparu diweddariad ynglŷn â TCC mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2014/15 a 2015/16.**

**(b) Bod y Panel yn ystyried gwahodd cynrychiolwyr o grwpiau gwahanol, fel yr amlygwyd uchod, i gyfarfodydd yn y dyfodol.**

**(c) Y rhoddir ystyriaeth i wahodd y Prif Gwnstabl i gyfarfod yn y dyfodol.**

**(d) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu diweddariad ynglŷn â TCC mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

157. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Bydd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 9 Mawrth 2015 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm)

## Diweddariad i'r Panel Heddlu a Throsedd
## 9 Mawrth 2015
## *Winston Roddick CB QC, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru*

Dyma fy adroddiad i'r Panel am y cyfnod o ganol mis Tachwedd 2014 i 1 Chwefror 2015. Nid yw'r adroddiad yn trafod gofynion adrodd statudol penodol o ran y praesept, penodiadau yn fy swyddfa, diwygiadau i fy nghynllun heddlu a throsedd nac yn cynnwys fy adroddiad blynyddol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) o'r Ddeddf, mae'n darparu'r panel â'r wybodaeth y disgwylir i'r Comisiynydd o fewn rheswm ei chyfrannu i'r panel i gyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Adran Un: Fy adroddiad craffu i o Heddlu Gogledd Cymru

Pwrpas yr adran hon yn fy adroddiad yw dangos sut yr wyf wedi bod yn cyflawni fy mhrif swyddogaeth o graffu Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n gwneud hynny trwy fesur perfformiad yr heddlu o'r pedwar amcan yn fy nghynllun yn erbyn y mesurau a nodir. Y prif gyfrwng a ddefnyddir i gyflawni'r swyddogaeth honno yw'r bwrdd gweithredol strategol (BGS) - rwy'n cadeirio'r bwrdd sydd hefyd yn cynnwys y prif gwnstabl a'i uwch swyddogion fel aelodau.


Cyn pob cyfarfod o'r bwrdd hwnnw, mae'r prif gwnstabl yn darparu ystadegau troseddu a gwybodaeth arall gan gynnwys graffiau, tablau a siartiau (o'r math a ddangosir isod) ac mae'n debyg y byddaf yn craffu perfformiad trwy gyfeirio at yr ystadegau a'r tueddiadau hyn yn ogystal â'r mesurau a grybwyllwyd yn gynharach.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn mesurau fy nghynllun 2013/14 hyd at 5 Ionawr 2015.


## Amcan yr Heddlu a Throsedd 1: Atal troseddau

Defnyddir pedwar mesur i fesur perfformiad yr amcan hwn. Y pedwar mesur yw 'lefel yr holl droseddau', 'lefel y troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr', 'lefel y troseddau a gafodd eu datrys yn ôl math' a 'lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol'. Ni ddylid edrych ar y mesurau fel targedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo i gwestiynu ffigurau perfformiad a'i gwneud yn glir ynglŷn â'r prif faterion y byddaf yn eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud yr asesiad hwnnw. Rwy'n cyflwyno'r wybodaeth isod i chi nid er mwyn i chi graffu ar berfformiad yr heddlu, ond yn hytrach er mwyn dangos y craffu yr wyf wedi ei wneud mewn perthynas â'r amcan hwn.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y prif gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a throseddau yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd bob 3 mis ers mis Ebrill 2010:




Ffigur 1: pob trosedd a gofnodwyd bob mis fesul 1000 o'r boblogaeth i Ionawr 2015 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigur 2: Troseddau a gofnodwyd yn seiliedig ar y dioddefwr bob mis fesul 1000 o'r boblogaeth (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r ffigurau diweddaraf a ddarparwyd i mi gan yr heddlu (ar ddechrau mis Ionawr 2015) yn dangos bod yr holl droseddau wedi lleihau 0.2% (blwyddyn hyd yn hyn) a bod troseddau yn

seiliedig ar y dioddefwr wedi cynyddu 0.7%. Mae fy ngweithgareddau craffu yn dangos bod perfformiad yn parhau i symud mewn cyfeiriad cadarnhaol, ac mae hyn yn cymharu â chynnydd o 1% mewn troseddau yn seiliedig ar y dioddefwr yn y flwyddyn hyd yn hyn a adroddwyd i'r Panel ym mis Medi 2014.

Ar hyn o bryd mae difrod troseddol yn dangos gostyngiad o 3.9% o'r naill flwyddyn i'r llall, gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gweld gostyngiad o 10.6%.

Ar 20 Ionawr mynychais gyfarfod cyhoeddus yn Church Walks yn Llandudno a drefnwyd yn dilyn cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Daeth yr Arolygydd Paul Joyce a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) Chris Perkins gyda mi. Roeddwn yn falch o nodi bod yr achwynwyr yn llawn edmygedd o'r modd yr oedd swyddogion wedi delio â'r cwynion ac rwyf wedi diolch yn bersonol i'r swyddogion dan sylw am eu gwaith caled.

Cefais wybod yn ddiweddar bod 33% o droseddau a gofnodwyd yn Wrecsam yn digwydd ym Mharc Caia a bod dros 20% o garcharorion a gaiff eu prosesu trwy'r ddalfa yn Wrecsam yn byw ym Mharc Caia. O ganlyniad i hyn rwyf wedi bod yn cysylltu â'r Arolygydd Ardal lleol i sicrhau bod yr ymateb plismona yn yr ardal honno yn briodol, a byddaf yn ymweld â Pharc Caia ym mis Ebrill i weld y problemau trosedd a materion plismona yn yr ardal yn uniongyrchol.

Rhoddais wybod i'r Panel yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr fod y prif gwnstabl wedi dweud wrthyf y byddai ein timau plismona cymdogaeth yn ymdrechu i barhau â'r perfformiad uchod drwy gynllunio ymlaen ar gyfer cyfnod y Nadolig. Roedd Ymgyrch y Nadolig 2014 yn cynnwys y mentrau isod yn gweithredu ar adegau o alw uchel:

- Canolfan les bwrpasol yn Wrecsam a'r Rhyl gyda chymorth estyn allan yn cael ei ddarparu mewn rhai trefi eraill gan Fugeiliaid Stryd a'r Groes Goch Brydeinig;
- Gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol sy'n gweithio yn ystafell reoli'r heddlu i roi cyngor tactegol i ymatebwyr cyntaf ar draws y gwasanaethau brys;
- Cerbydau Cam-drin Domestig yn darparu ymateb pwrpasol a gweithgarwch atal i ddioddefwyr;
- Marsialiaid tacsi yn Wrecsam, y Rhyl, Llandudno a Bangor yn helpu i atal anhrefn mewn safleoedd tacsis;
- Diogelwch ychwanegol yn y tri phrif ysbyty i wella diogelwch staff a chleifion;
- Ymgyrch Sodium - Ymgyrch Atal Yfed a Gyrru y Nadolig;
- Ymgyrch Siôn Corn oedd yn anelu at ddarparu plismona mwy gweladwy mewn adeiladau manwerthu dros gyfnod y Nadolig er mwyn tawelu meddwl y cyhoedd a chymunedau busnesau ac atal troseddau sy'n ymwneud â dwyn o safleoedd manwerthu.

Mae ymgyrchoedd fel "Ymgyrch Bang" (ymgyrch flynyddol dros noson tân gwyllt/Calan Gaeaf) hefyd yn dangos bod yr heddlu wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bu rhai newidiadau nodedig mewn rhai categorïau troseddau craidd yr wyf wedi bod yn eu monitro yn ofalus.

Y cyntaf yw yn y categori troseddau treisgar. Mae'r sefyllfa ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn gan ddefnyddio'r ffigurau diweddaraf ar gyfer wythnos 39 (1 Ebrill 2014- 5 Ionawr 2015) yn dangos y bu cynnydd o 9.2% yn y categori trais gydag anaf, a chynnydd o 14.8% mewn trais heb anaf.

Er bod y ffigurau uchod yn gadarnhaol o’u cymharu â chynnydd o 30% mewn trais heb anaf ym mis Mai 2014, rwyf yn parhau i gyflawni gweithgareddau craffu cyfnodol er mwyn sicrhau bod y cynnydd a brofir yn parhau i leihau.

O ran y cynnydd mewn trais gydag anaf, gofynnwyd am eglurder gan y prif gwnstabl ynglŷn ag a yw'r ymgyrchoedd ar waith dros gyfnod y Nadolig wedi cael effaith ar y ffigurau hyn. Rwyf wedi cael eglurhad bod y rhan fwyaf o'r cynnydd a gafwyd ar ddechrau'r flwyddyn blismona a bod ymgyrch blismona sylweddol wedi’i chynnal dros yr hydref a'r gaeaf i ddelio â hyn, yn ogystal â'r ymgyrchoedd Nadolig ehangach y cyfeirir atynt uchod. Rhaid i mi nodi bod trais a throseddau rhyw eraill yn cael eu cynnwys o fewn y categori troseddau treisgar, a bod llawer o waith wedi ei wneud i annog adrodd yn y categori hwn. Yn wir, bu cynnydd o 27.6% yn y flwyddyn hyd yn hyn mewn troseddau rhyw (gan gynnwys trais).

Rwyf wedi fy sicrhau bod atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar frig agenda Heddlu Gogledd Cymru. Er mwyn cyflawni'r amcan strategol hwn, mae'r heddlu yn parhau i ddatblygu partneriaethau tymor hir er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei weledigaeth, sef sicrhau Gogledd Cymru diogelach.


Fel y nodwyd eisoes i'r panel, rwyf hefyd yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau pellach gyda phartneriaid a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol i sicrhau bod adnabod ac ymateb i bobl sy’n cael effaith anghymesur ar wasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â nodi achosion sylfaenol nifer o droseddau, yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

## Amcan yr Heddlu a Throsedd 2: Darparu ymateb priodol

Tri mesur yr amcan hwn fel a nodir yn fy nghynllun yw: (1) amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau’r heddlu; (2) nifer y galwadau nad ydynt yn rhai brys a gaiff eu dosbarthu fel galwadau ‘a gaiff eu gadael’; a (3) adborth a gafwyd drwy arolygon dioddefwyr.

Yr amser ymateb ar gyfartaledd ar hyn o bryd yw 12.48 munud.

Mae’r gyfradd galwadau a gaiff eu gadael ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys yn destun craffu rheolaidd, ac ar hyn o bryd yn sefyll o amgylch tua 1%.




Ffigur 3: Cyfradd galwadau wythnosol nad ydynt yn rhai brys a gaiff eu gadael (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru):

Byddaf yn cael canlyniadau arolwg bodlonrwydd dioddefwyr bob chwarter. Mae'r canlyniadau diweddaraf ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2014, yn dangos bod bodlonrwydd dioddefwyr â'r profiad cyfan yn 81% o'i gymharu ag 83% ar ddiwedd mis Mehefin 2014.

Yn ddiweddar, cefais y wybodaeth ddiweddaraf a gynhyrchwyd o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2014). Caiff ei diweddaru bob chwarter ac mae'n cymharu heddluoedd mewn nifer o feysydd pwysig. Roeddwn am rannu rhai o'r uchafbwyntiau allweddol gyda chi, sy'n dangos y gwelliannau sy'n cael eu gwneud mewn rhai meysydd allweddol o waith. Mae llawer o'r mesurau yn ymwneud mewn rhyw ffordd â'r ffydd sydd gan y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru.

Y prif feysydd yr hoffwn dynnu sylw atynt yw:

**Dealltwriaeth y Gymuned** - mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod nifer y rhai sy'n meddwl bod gan Heddlu Gogledd Cymru ddealltwriaeth o faterion cymunedol wedi cynyddu. Mae'r heddlu wedi codi wyth o safleoedd i fod yn 2il yn genedlaethol (allan o 43), sydd yn amlwg yn dda iawn.

**Parch** - mae nifer y bobl sydd o'r farn bod swyddogion Heddlu Gogledd Cymru yn trin pobl â pharch wedi gweld Heddlu Gogledd Cymru yn codi pum safle i fod yn 6ed yn genedlaethol.

**Heddlu'n Delio â Phryderon** – mae Heddlu Gogledd Cymru yn y 10fed safle yn genedlaethol yn y maes hwn, sy'n gynnydd o chwe safle ers y chwarter diwethaf.

**Heddlu'n Gwneud Gwaith Da / Rhagorol** – mae Heddlu Gogledd Cymru wedi codi saith safle yn genedlaethol i fod yn 21ain, sy'n rhoi Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Ffydd** - Mae nifer y bobl sy'n dweud bod ganddynt ffydd yn Heddlu Gogledd Cymru wedi golygu bod Heddlu Gogledd Cymru wedi codi wyth safle i fod yn 25ain yn genedlaethol (o'i gymharu â bod yn 42fed yn genedlaethol ym mis Rhagfyr 2013).

**Triniaeth Deg** - mae'r heddlu wedi codi un ar ddeg o safleoedd i fod yn 12fed yn genedlaethol.

Yn ogystal â chanlyniadau'r Arolwg Troseddu, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cwblhau ei arolwg ei hun yn ddiweddar, sydd unwaith eto yn dangos ffydd gynyddol y cyhoedd yn yr heddlu:

- Mae'r heddlu yn delio â'r pethau sy'n bwysig i bobl yn y gymuned hon – wedi cynyddu o 72.6% i 74.3%
- Teimlo'n ddiogel yn y cartref - wedi cynyddu o 96.3% i 97.0%
- Teimlo'n ddiogel ar y stryd gyda'r nos - wedi cynyddu o 71.1% i 78.4%
- Teimladau o ddiogelwch yng Ngogledd Cymru yn gyffredinol – wedi cynyddu o 87.5% i 90.9%

Wrth gwrs, mae'r prif gwnstabl a minnau yn cydnabod bod hon yn sefyllfa sy'n gwella, yn hytrach na bod yn sefyllfa berffaith, ac mae'n amlwg bod gan yr heddlu rywfaint o waith i'w wneud mewn rhai ardaloedd er mwyn sicrhau bod pethau cystal ag y gallant fod, a bod gan y cyhoedd y parch mwyaf at yr heddlu ar draws pob agwedd ar y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Rwyf yn gwbl sicr nad yw'r gwelliannau diweddar hyn wedi digwydd ar hap, ond yn hytrach o ganlyniad i ymdrech fwriadol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y ffocws cynyddol ar ansawdd

drwy'r ymgyrch *It Matters*, gwaith yr Heddlu er mwyn sicrhau bod ganddynt y safonau a'r foeseg uchaf ar draws y sefydliad, a gwaith y timau plismona cymdogaeth wrth ymgysylltu'n well â'r cyhoedd. Rhaid i Heddlu Gogledd Cymru gynnal pwyslais ar y meysydd gwaith hyn, gan fod enw da cryfach i'r sefydliad yn anodd ei gyflawni, ond yn hawdd ei golli os caiff y cyhoedd eu gadael i lawr.

## Amcan yr Heddlu a Throsedd 3: Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae gan fy nghynllun ddau fesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr heddlu o ran yr amcan hwn, sef: nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a lefel y troseddu a ailadroddir.

Mae ffigurau'r flwyddyn hyd yn hyn (hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2014) ar gyfer y rhai a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd, ar hyn o bryd yn uwch na rhai'r flwyddyn flaenorol (264 o'i gymharu â 210). Ar hyn o bryd rwy'n gweithio gyda fy mhartneriaid o fewn yr Heddlu i ganfod rhesymau dros y cynnydd hwn o 54 a byddaf yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Heddlu i'r perwyl hwn cyn cyfarfod y panel ar 9 Mawrth 2015 (ond ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn) .

Y mesur arall a gaiff ei fonitro o fewn yr amcan hwn yw lefel y troseddu a ailadroddir. Bu sefydlogrwydd cymharol yn lefel y ffigurau 'ad-droseddwyr' ers mis Ionawr 2013. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i ddatblygu prosiectau ymhellach gyda fy mhartneriaid i sicrhau ailsefydlu ac adsefydlu effeithiol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc a merched yn y System Cyfiawnder Troseddol.

## Amcan yr Heddlu a Throsedd 4: Ffurfio partneriaethau effeithiol

Mae'r amcan hwn yr un mor bwysig ag unrhyw un o'r tri arall, ond nid yw ei berfformiad yn agored i gael ei fesur (yn sicr nid mesur ystadegol), ac nid wyf wedi nodi unrhyw fesurau yn y cynllun ar gyfer mesur ei berfformiad. Rhoddais drosolwg i'r panel yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2014 o'r partneriaethau ffurfiol yr wyf yn aelod ohonynt (gan gynnwys y byrddau diogelu lleol a'r byrddau gwasanaethau lleol) a'r ffaith bod Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014 wedi sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd fel partneriaid cynllunio cymunedol statudol.

Mae enghreifftiau pellach o weithio mewn partneriaeth dros fisoedd y gaeaf wedi eu darparu uchod.

## Diwygiadau i'r Cynllun Heddlu a Throsedd

Ystyriodd y panel fy amrywiadau arfaethedig i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2015. Fel rhan o'r ail adolygiad hwn, roeddwn wedi ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, y cyhoedd, awdurdodau statudol, y gymuned fusnes, sefydliadau'r trydydd sector a'r Bwrdd Cymunedau Diogelach lleol.

Roedd y Panel yn cefnogi'r amrywiadau i'r Cynllun Heddlu a Throsedd a'r mesurau ychwanegol.

Mae'r mesurau ychwanegol / diwygiedig fel a ganlyn:

- Lefel lladrad domestig
- Cynyddu nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid
- Cyrraedd y targed arbedion ar gyfer 2015/16 (mewn perthynas ag ymateb)
- Lefel y troseddu ailadroddus, gan gynnwys ad-droseddwyr risg uchel o ran trais domestig
- Nifer y sawl sy'n cyflawni trosedd cam-fanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cael eu harestio a'u herlyn
- Nifer yr achosion o bobl sydd â delweddau anweddus o blant a erlynwyd

Bydd y Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Ebrill 2015 a byddaf yn craffu ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn y mesurau diwygiedig ar ôl hynny.

## Troseddu a Phlismona yn eich ardal chi

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn rhoi gwybodaeth ystadegol am ddigwyddiadau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd yn benodol i god post.

Ers mis Ionawr 2015 mae gwefan police.uk hefyd yn cynnwys data lleol Stopio a Chwilio.

## Adran 2: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwyf yn rhoi crynodeb byr i'r panel o'r prif bethau yr wyf wedi bod yn eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y panel.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona. Ers cyfarfod diwethaf y panel, rwyf wedi cynnal nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o fy rôl ac i roi cyfle i gymunedau gogledd Cymru ddweud eu barn am drosedd a phlismona. Dyma rai uchafbwyntiau o'r misoedd diwethaf:

Ddiwedd mis Tachwedd, cwrddais â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd eraill yng Nghynhadledd Flynyddol cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, a chynrychiolwyr o'r Daily Post a Heart FM. Bûm hefyd yn annerch Cynhadledd Cyfiawnder Adferol yn Hen Golwyn yn ogystal â chwrdd â Mr Trevor Purt a Dr Peter Higson o Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod y posibilrwydd o gael Canolfan Gyfathrebu Tri Gwasanaeth a materion yn ymwneud â'r Gwasanaeth Ambiwlans. Bûm hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r Gymuned Foslemaidd, mynychu cyfarfodydd Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint, Cyfarfod Camfanteisio Rhywiol ar Blant a'u Diogelu yn Abertawe, ac yn cwrdd â chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn i drafod cynllun peilot ailsefydlu troseddwyr, a chynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn i drafod cam-drin pobl hŷn.

Ym mis Rhagfyr bûm mewn cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghaerdydd gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd eraill yng Nghymru, ac yn mynychu cyfarfodydd o Grwpiau Tryloywder a Chyfiawnder Troseddol Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Cynhaliais hefyd gyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol Strategol, yn ogystal â chynnal digwyddiad i ymgynghori

ag aelodau o'r 3ydd sector ar fy Nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig. Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn bûm mewn cyfarfod â Dr Helen Patterson (Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y Cydlynydd Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, a chyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn ogystal â chynnal cymhorthfa gyhoeddus ym Mae Colwyn.

Ym mis Ionawr mynychais Ddiwrnod Ymgysylltu yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Bûm hefyd yn cyfarfod â'r 3 Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd arall yng Nghymru mewn cyfarfod Cymru Gyfan yn Nyfed Powys, mynychais gyfarfod cyhoeddus yn Llandudno, a chyfarfod â chynrychiolwyr o Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r IPCC.

Ers cyfarfod diwethaf y panel, yn ogystal â chwrdd gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid a'r cyhoedd, rwyf wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau allweddol yn y cyfryngau. Mae'r rhain wedi cynnwys:

Mam ddewr yn wynebu'r gyrrwr a laddodd ei merch

Agoriad swyddogol tŷ hyrwyddwyr yn Wrecsam <http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Newyddion/Archif-Newyddion/2014/OfficialopeningofTyHyrwyddwyrChampionsHouseinWrexham.aspx>

Creu cynllun penodedig newydd ar gyfer yr heddlu

Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cicio ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r neilltu

Comisiynydd Heddlu yn addo lleddfu ofn trosedd

Safle Heddlu newydd ym Mhrifysgol Bangor

Bywyd gwyllt yn denu Cwnstabl gwirfoddol

Cost plismona yn codi 17c yr wythnos

Terfysgaeth yn rhoi pwysau ychwanegol ar yr Heddlu

Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru yw'r rhataf yng Nghymru

## Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Gofynnodd y Panel am wybodaeth am waith y dirprwy gomisiynydd. Mae'n gwbl ymroddedig a hynny'n effeithiol iawn i'm rhaglen waith heriol iawn, fel y nodir isod:

Mae ymrwymiadau'r dirprwy gomisiynydd ers cyfarfod diwethaf Panel yr Heddlu a Trosedd wedi cynnwys cadeirio cyfarfod o'r bwrdd prosiect Strategaeth Integredig ar gyfer Dioddefwyr ar 20 Ionawr. Bydd cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr yn trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ar 1 Ebrill 2015. Gwnaeth y cyfarfod uchod adolygu'r achos busnes llawn a oedd yn cynnwys dau opsiwn wedi'u costio a gwnaed y penderfyniad i weithredu'r 'ymagwedd aml-asiantaeth a arweinir gan Gymorth i Ddioddefwyr.' Mae'r gwaith gweithredu yn awr ar y gweill a'r dyddiad ar gyfer mynd yn fyw yw 1 Gorffennaf ac mae trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer parhad o'r trefniadau presennol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Bydd y strategaeth gwasanaethau dioddefwyr newydd yn cael ei lansio ar 20 Mawrth 2015 yng Nghanolfan Fusnes Conwy a'r Farwnes Newlove fydd un o'r siaradwyr allweddol.

Ar 22 Ionawr, roedd y Dirprwy Gomisiynydd yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Cydweithio yr Heddlu. Adroddwyd am statws presennol y gwaith sy'n ymwneud â Chymru gyfan, y Gogledd Orllewin a chydweithio golau glas yn y cyfarfod. Ar 23 Ionawr, roedd y Dirprwy Gomisiynydd yn brif siaradwr yng Nghynhadledd Atal Caethwasiaeth Cymru Gyfan. Pwysleisiodd bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn penderfynu ar faint o gaethwasiaeth fodern sy'n digwydd ar draws gogledd Cymru a sut mae hyn yn ymwneud â'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Pwysleisiodd hefyd y rhan hanfodol y mae angen i wybodaeth a rhannu gwybodaeth ei chwarae a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf am y proffil problemus yn y misoedd i ddod. Cafodd y digwyddiad sylw da yn y wasg a'r cyfryngau.

## Comisiynu

Anfonwyd llythyr at bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Cronfa'r Comisiynwyr 2015-16. Bydd y blaenoriaethau ar gyfer Cronfa'r Comisiynwyr yn aros yr un fath ag yn 2014/15 gyda phwyslais ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig a chaledu targedau. Fodd bynnag, bydd gofynion adrodd mewn perthynas â phob un o'r uchod yn llawer mwy llym a bydd angen i bartneriaid sicrhau bod y gofynion monitro priodol yn cael eu cwblhau'n amserol. Bydd y cyllid yn aros yr un fath ar gyfer 2015-16 a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno achosion busnes yw 20 Mawrth 2015.

**<u>Cyllideb Gyfranogol:</u>**

Daeth y cynllun cyllideb gyfranogol ar gyfer 2014/15 i ben yn ddiweddar a chafodd y grwpiau llwyddiannus eu sieciau mewn cyflwyniad a gynhaliwyd ym mhencadlys Heddlu Gogledd Cymru ar 28 Ionawr 2015. Roedd cymunedau gogledd Cymru yn gallu penderfynu pa brosiectau a ddylai gael cymorth ariannol. Cafodd y cynllun ei ariannu ar y cyd rhwng arian a adenillwyd drwy'r Ddeddf Enillion Troseddau a Chronfa'r Comisiynwyr.

Cafodd nifer o brosiectau eu cyflwyno ac yn ddiweddarach lluniwyd rhestr fer yn dilyn trafodaeth rhwng y panel. Yna roedd y cyhoedd yn pleidleisio ar y rhai ar y rhestr fer. Y prosiectau llwyddiannus ym mhob sir oedd:

| | |
|---|---|
| YNYS MÔN: | 1. Ffrindiau Rhosybol<br>2. Ffrindiau Bodedern |
| CONWY: | 1. Clwb Pêl-droed Tref Llanfairfechan<br>2. Gwarchod y Gymdogaeth Llandudno |
| SIR DDINBYCH: | 1. Dragon Riders, y Rhyl<br>2. Grŵp Gweithredu Cymunedol Prestatyn a Gallt Melyd |
| SIR Y FFLINT: | 1. Groundwork<br>2. WEA Cymru |
| GWYNEDD: | 1. Gisda<br>2. Sefydliad Marchogaeth Therapiwtig Cymru |
| WRECSAM: | 1. Prosiect Warehouse<br>2. Partneriaeth Parc Caia |
| LEDLED GOGLEDD CYMRU: | Dangerpoint |

O ystyried llwyddiant ysgubol y cynllun mae'n bleser gennyf gadarnhau y bydd yn cael ei gynnal unwaith eto yn 2015/16. Bydd y Panel yn cael gwybod am yr amserlenni drwy gydol y flwyddyn.

## Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

Ar 29 Ionawr 2015, rhyddhaodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi eu hadroddiad arolygu ar y cynnydd y mae heddluoedd yn ei wneud o ran mynd i'r afael â llygredd, “Integrity matters - An inspection of arrangements to ensure integrity and to provide the capability to tackle corruption in policing”. Canfu'r adroddiad fod y rhan fwyaf o heddluoedd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran adolygu a sicrhau bod prosesau wedi eu rhoi ar waith i atal a mynd i'r afael â llygredd.

Canfu'r adroddiad nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod llygredd yn endemig yng ngwasanaeth yr heddlu, ond bod y mwyafrif llethol o swyddogion a staff yn onest ac yn broffesiynol, a dyna fu fy mhrofiad personol fy hun o weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn nodi bod rhai materion sy'n peri pryder yn ymwneud â chysondeb, gyda rhai heddluoedd heb y gallu i fynd ati i chwilio am lygredd a’i atal. Gwnaeth yr adroddiad bedwar ar ddeg o argymhellion. Byddaf yn cwrdd â'r prif gwnstabl a'i uwch dîm swyddogion yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol i drafod yr argymhellion hyn ac ymateb Heddlu Gogledd Cymru.

## Cyllideb

Mae’r papurau ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys adroddiad yn amlinellu sefyllfa’r gyllideb fel yr oedd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2014, sydd ar hyn o bryd yn rhagweld tanwariant bychan o £114k (ar 31 Rhagfyr 2014). Gan edrych ymlaen, mae cynlluniau ar gyfer arbedion cyllideb o £4.448m ar gyfer 2015/16 wedi eu cwblhau, ac mae cynlluniau ar gyfer y tair blynedd ddilynol yn cael eu datblygu. Cyhoeddwyd y setliad drafft ar 17 Rhagfyr 2014, a arweiniodd at doriad 5.1% mewn grantiau llywodraeth; cafwyd y cyhoeddiad terfynol am y setliad ar 4 Chwefror, nid oedd unrhyw newid o'r setliad dros dro o £73.162 miliwn.

## Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC)

Byddwch wedi gweld y sylw diweddar yn y wasg o amgylch y blog Thoughts of Oscar. Ysgrifennais at Mr Guto Bebb AS ar 9 Chwefror 2015 a rhoi gwybod iddo fy mod wedi cymryd diddordeb mawr yn y mater hwn ac wedi cadw golwg agos ar gamau gweithredu'r heddlu mewn perthynas â'r cwynion a wnaed. Fel y mae pethau yn awr, mae’r cwynion a gafwyd gan aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn destun ystyriaeth gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, dau swyddog o safle uwch-arolygydd (gan gynnwys ditectif uwch-arolygydd) a Phennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru. Barn unfrydol y pedwar o bobl hynny yw nad oedd yr un o'r cwynion a ymchwiliwyd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer erlyniad troseddol. Barn Prif Gyfreithiwr Erlyn y Goron Cymru oedd eu bod ymhell islaw'r trothwy hwnnw.

## Dinasyddion mewn Plismona

Mae gan fy swyddfa rôl allweddol wrth gydweithio â'r Heddlu i oruchwylio gweithrediad effeithiol strategaeth Dinasyddion mewn Plismona. Mae Dinasyddion mewn Plismona yn cyfeirio at y grŵp ehangach o bobl sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i gefnogi a chynorthwyo plismona yng Ngogledd Cymru.

Mae wedi bod yn draddodiad hir mewn plismona ym Mhrydain i fod â swyddogion heddlu gwirfoddol (Cwnstabliaid Arbennig) sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion rheolaidd a staff i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau plismona. Mae'r rhai sy'n cyflawni’r rolau hyn yn bobl ymroddedig a phroffesiynol sy'n rhoi o'u hamser a'u hymdrechion yn rhydd er budd pobl eraill. Maent yn ysbrydoliaeth i'r sefydliad a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Mae'r Strategaeth Dinasyddion mewn Plismona yn anelu at ddatblygu defnyddio a rheoli gwirfoddolwyr o fewn Heddlu Gogledd Cymru i ychwanegu gwerth at waith yr Heddlu a'i gefnogi. NID yw gwirfoddolwyr yn disodli rolau staff a swyddogion. Fodd bynnag, drwy gynyddu nifer y Cwnstabliaid Arbennig, Gwirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu a sefydlu Cynllun Cadetiaid yr Heddlu gwirfoddol newydd ar gyfer pobl ifanc, pwrpas y strategaeth yw dod â'r gymuned yn nes at blismona yng ngogledd Cymru sydd yn ei dro yn dod â buddion ychwanegol i wasanaeth yr heddlu.

Rwyf yn cael fy nghynrychioli ar y Bwrdd Dinasyddion mewn Plismona.

## Cydbwyllgor Archwilio

Fel a adroddwyd i gyfarfod y Panel ym mis Rhagfyr 2014 mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi eu barn archwilio ar 2013-14, ac maent wedi cyhoeddi adroddiad archwilwyr diamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14.

Yn y cyfarfod ar 29 Tachwedd 2014 ystyriodd y pwyllgor y canlynol:

- Adroddiad cynnydd archwilio mewnol
- Rheoli risg
- Adolygiad hanner blwyddyn o waith y pwyllgor
- Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-14 a memorandwm archwiliad cyfrifon terfynol 2013-14

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 26 Chwefror 2015.

## Gohebiaeth

**Ffigurau gohebiaeth 1 Ionawr 2014 - 1 Mawrth 2015**

| ***Categori Gohebiaeth*** | ***Nifer*** |
|---|---|
| Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 49 |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 22 |
| Cwynion a gyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 10 |
| Materion staffio (gall hyn gynnwys trefniadau ar gyfer paneli camymddwyn, tribiwnlysoedd apeliadau'r heddlu, gohebiaeth gan gymdeithasau staff a materion perthnasol eraill) | 4 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 288 |

# EITEM RHAGLEN 5b

**Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Diweddariad ar Gyllideb 2014/15 (ar 31 Rhagfyr 2014)** |
| **Cyfarfod:** | **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 9 Mawrth 2015** |
| **Awdur: Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** | |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru aelodau Panel yr Heddlu a Throsedd ar sefyllfa'r gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 31 Rhagfyr 2014.

**2. Argymhellion**

2.1 Nodi'r adroddiad.

**3. Cyllideb Refeniw 2014/15**

3.1 Y gyllideb net ar gyfer 2014/15 yw £141.204 miliwn. Ar 31 Rhagfyr 2014, mae tanwariant wedi'i ragamcanu net o £0.114 miliwn (£0.360 miliwn ar 30 Medi 2014, fel yr adroddwyd i'r Panel Heddlu a Throsedd ar 15 Rhagfyr 2014).

3.2 Disgwylir gwariant i fod yn unol yn fras â'r gyllideb. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau a ragwelir. Y rhai mwyaf arwyddocaol o blith y rhain yw:

3.2.1 Gweithwyr - rhagwelir gorwariant o £0.284 miliwn.

Mae hwn wedi lleihau o'r £0.627 miliwn a adroddwyd ym mis Rhagfyr. Y prif resymau yw:

- Tâl Staff yr Heddlu: rhagwelir tanwariant o £0. 070 miliwn (o'i gymharu â gorwariant o £0.208 miliwn a ragwelwyd ar ddiwedd mis Medi). Mae'r dyfarniad cyflog blynyddol ar gyfer staff wedi ei gytuno, er bod angen cadarnhad terfynol. Y dybiaeth wreiddiol oedd y byddai codiad cyflog o 1% yn dod i rym o fis Medi 2014 ymlaen, gyda chodiad cyflog pellach o 1% ym mis Medi 2015. Fodd bynnag, y sefyllfa bresennol yw y bydd codiad cyflog o 2.2% yn dod i rym o 1 Mawrth 2015, gyda'r codiad nesaf ym mis Medi 2016.
- Tâl Swyddogion Heddlu: rhagwelir gorwariant o £0. 330 miliwn (o'i gymharu â £0.467 miliwn ar ddiwedd mis Medi) – mae'r cyllidebau tâl ac incwm wedi eu haddasu er mwyn ystyried effaith cymorth ar y cyd. Mae'r gweddill yn ymwneud â recriwtio ac, os oes angen, gellir ei ariannu o'r Gronfa Swyddogion ar Brawf.

3.2.2 Eiddo - rhagwelir gorwariant o £0.009 miliwn

Roedd tanwariant sylweddol yma ym mis Rhagfyr (£0.298 miliwn). Fel a adroddwyd yn y cyfarfod hwnnw, mae gwaith wedi ei wneud i nodi gwaith atgyweirio a allai gael ei ddwyn ymlaen, sydd bellach yn mynd rhagddo.

3.2.3 Cludiant - rhagwelir tanwariant o £0.257 miliwn

Mae gostyngiad cyffredinol mewn costau cynnal a chadw ac effaith prisiau tanwydd is wedi lleihau'r gwariant a ragwelwyd.

3.2.4 Cyflenwadau a Gwasanaethau - rhagwelir gorwariant o £0.144 miliwn

- Mae'r newid mwyaf yn ymwneud â chostau TG untro gan gynnwys:
  - Uwchraddio meddalwedd ar gyfer camerâu symudol ANPR
  - Datblygu gwefan
  - Meddalwedd amddiffyn rhag llifogydd

3.3 Incwm - rhagwelir incwm ychwanegol o £0.294 miliwn

Rhagwelir incwm ychwanegol am nifer o resymau, gan gynnwys:

- Nawdd am gydlynydd lladrad metel
- Ad-daliad o'r Coleg Plismona
- Cyllid partneriaeth arall

3.4 Argyfyngau a chynilion - lle mae gwariant ac arbedion wedi'u nodi, mae'r symiau hyn wedi eu symud i'r llinellau cyllideb perthnasol. Mae amryw o drosglwyddiadau eraill wedi eu cynnal (er enghraifft, mae'r gyllideb ar gyfer y Gynghrair Drylliau Tanio wedi ei hailddatgan i ddangos yr incwm o secondiadau a chost fel cyfraniad at y Gynghrair).

3.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau refeniw a'r rhagamcanion isod:

| | **Cyllideb Wreiddiol £'000** | **Cyllideb Ddiwygiedig (ar 31 Rhag 2014) £'000** | **Gwirioneddol (ar 31 Rhag 2014) £'000** | **Rhagamcaniad at 31 Mawrth 2015 £'000** | **Rhagamcan o'r Amrywiant £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 121,098 | 121,959 | 91,285 | 122,243 | 284 |
| Adeiladau | 8,187 | 8,437 | 5,993 | 8,446 | 9 |
| Cludiant | 5,157 | 5,299 | 3,793 | 5,042 | (257) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 16,681 | 20,661 | 14,140 | 20,805 | 144 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniad at Gyfalaf | 1,904 | 2,004 | - | 2,004 | - |
| Wrth gefn ac arbedion | 989 | 165 | - | 165 | - |
| Cronfa diogelwch cymunedol | 1,166 | 1,166 | 23 | 1,166 | - |
| | | | | | |
| **Gwariant Gros** | **155,182** | **159,691** | **115,234** | **159,318** | **180** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(14,247)** | **(18,756)** | **(9,296)** | **(19,050)** | **(284)** |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Wrth Gefn PFI | 373 | 373 | - | 373 | - |
| Cronfa Wrth Gefn Ymwybyddiaeth Cyflymder | (104) | (104) | - | (104) | - |
| | | | | | |
| **Gwariant Net** | **141,204** | **141,204** | **68,895** | **140,844** | **(114)** |

3.6 O fewn yr uchod, rydym wedi derbyn arian gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr a chyfiawnder adferol. Mae manylion y grantiau yn cael eu dangos isod:

| | **Swm y Grant** | **Gwirioneddol (ar 31 Ion 2014)** | **Rhagamcaniad at 31 Mawrth 2015** | **Rhagamcan o'r Amrywiant** |
|---|---|---|---|---|
| Costau sefydlu | £253,873 | £131,654 | £253,873 | £- |
| Gwasanaethau dioddefwyr | £238,616 | £- | £238,616 | £- |
| Cronfa y cystadlwyd amdani | £258,451 | £166,136 | £171,199 | (£87,252) |

**4. Cyllidebau Cyfalaf 2014/15**

4.1 Mae'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2014-15, 2015-16 a 2016-17 wedi ei chytuno fel rhan o'r Rhaglen Ariannol Tymor Canolig ac wedi ei chytuno yn ffurfiol gan y Comisiynydd yn y Bwrdd Gweithredol Strategol ar 27 Ionawr 2015 yn rhan o'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Adroddiad Dangosyddion Darbodus. Mae'r cyllidebau y cytunwyd arnynt yn cael eu dangos isod. Bydd y gyllideb ar gyfer 2015-16 yn heriol i'w chyflawni, gyda 3 o brosiectau ystadau mawr yn cael eu datblygu.

4.2 Er bod gwariant cyfalaf yn tueddu i gyflymu tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'n debygol y bydd rhywfaint o lithriad i mewn i 2015/16. Fodd bynnag, nid yw hyn yn creu unrhyw broblemau cyllidebol, oherwydd y gall arian cyfalaf gael ei gyflwyno ymlaen i flynyddoedd ariannol yn y dyfodol.

4.3 Mae crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf yn cael eu dangos isod:

| | **Cyllideb Wreiddiol 2014/15 £'000** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2014/15 £'000** | **Gwariant Gwirioneddol at 31 Rhagfyr 2014 £'000** | **Cyllideb Wreiddiol 2015/16 £'000** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2015/16 £'000** | **Cyllideb Wreiddiol 2016/17 £'000** | **Cyllideb Ddiwygiedig 2016/17 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Ystadau | 9,289 | 3,517 | 1,478 | 5,550 | 11,693 | 5,767 | 6,510 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cerbydau ac offer | 1,500 | 2,202 | 978 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| TG a Chyfathrebu | 3,139 | 1,394 | 451 | 2,100 | 4,545 | 1,220 | 300 |
| **Cyfanswm** | **13,928** | **7,113** | **2,907** | **9,150** | **17,738** | **8,487** | **8,310** |

**5. Goblygiadau**

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau o ran amrywiaeth ar wahân |
| Atebolrwydd | Pwrpas yr adroddiad yw hysbysu Panel yr Heddlu a Throsedd o sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf ar ddiwedd mis Medi 2014.<br><br>Mae adnoddau cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd unigol |

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Ffôn: | 01492 576061 |

EITEM RHAGLEN 6

| Dyddiad | Testun | Swyddog yn Gyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **9 Mawrth 2015** | **Cyflwyniad gan Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar ddarpariaeth TCC yng Ngogledd Cymru** | Julian Sandham, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Mawrth 2015** | **Diweddariad ar Gyllideb 2014/16** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |
| **15 Mehefin 2015** | **Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd)**<br>Cael adroddiad blynyddol y Comisiynydd | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **15 Mehefin 2015** | **Sut mae'r Comisiynydd yn gwneud penderfyniadau comisiynu a beth yw ei fwriadau ar gyfer y dyfodol/Gweithio mewn Partneriaeth?**<br>Ystyried adroddiad craffu ar sut y mae'r comisiynydd yn gwneud penderfyniadau comisiynu a beth yw ei fwriadau ar gyfer y dyfodol | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **15 Mehefin 2015** | **Lwfansau a Threuliau Aelodau**<br>Cael adroddiad ar y lwfansau a delir i aelodau o Banel yr Heddlu a Throsedd | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **21 Medi 2015** | **Sut mae'r Comisiynydd yn gwella hyder yn yr Heddlu ar draws Gogledd Cymru?**<br>Ystyried adroddiad craffu ar sut mae'r Comisiynydd yn gwella hyder yn yr Heddlu ar draws Gogledd Cymru? | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd<br>ken.finch@conwy.gov.uk |
| **21 Medi 2015** | **Cwynion a Gafwyd**<br>Derbyn crynodeb o nifer y cwynion a gafwyd a'r camau gweithredu a fu yn eu sgil | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd<br>ken.finch@conwy.gov.uk |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Testun** | **Swyddog yn Gyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)** |
| **21 Medi 2015 14 Rhagfyr 2015 14 Mawrth 2016** | **Diweddariad ar Gyllideb 2015/16** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |
| **25 Ionawr 2016** | **Praesept Arfaethedig 2016/17** Ystyried y praesept arfaethedig ar gyfer 2016/17 | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **14 Mawrth 2016** | **Cynllun yr Heddlu a Throsedd** Cynllun yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Eitemau yn y dyfodol** | | |
| **Rhwng 12 Mehefin 2015 a 27 Mai 2016** | **Sut mae'r Comisiynydd yn creu partneriaethau effeithiol?** Ystyried adroddiad craffu ar sut mae'r Comisiynydd yn meithrin partneriaethau effeithiol | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd ken.finch@conwy.gov.uk |
| **I'w gadarnhau** | **Diweddariad ar newidiadau i'r Fformiwla Gyllido** Cael diweddariad ar yr adolygiad o fformiwla gyllido yr heddlu. | Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |